Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

HYFFORDDWR TGCh

GRADD 8, Cyflog: £30,296 – £31,364

Llawn Amser – Dydd Llun i Ddydd Gwener – 37 awr/wythnos

Rhif Post: 503265

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi o fewn Adran TGCh Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Mae technoleg yn rhan hanfodol o'r modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei weithgareddau o ddydd i ddydd.

P'un a yw'n ymwneud ag ysgogi ein criwiau i ddigwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg hollbwysig, neu gefnogi swyddogaethau cefn swyddfa wrth reoli ein hadnoddau, mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi gweithrediad y Strategaeth TGCh trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol ar gyfer pob agwedd ar TGCh. Byddant yn dylunio ac yn cyflwyno hyfforddiant priodol i staff gan ddefnyddio dulliau cyflwyno amrywiol gan gynnwys ystafell ddosbarth, gweithdai, hyfforddiant un-i-un, e-ddysgu a ddarperir ar unrhyw safle o fewn y Gwasanaeth.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad addas fel yr amlinellir ym Manyleb y Person. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac efallai y bydd yn ofynnol iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn penodi.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg ar waith. I weld manteision gweithio gyda ni, ewch i: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/buddion/

Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gall gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/.

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch:

personnel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais trwy eu porth COREHR, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag OCDS.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **04/02/2025 am 12:00 ganol dydd. - Nid oes angen i ymgeiswyr blaenorol o fewn y 6 mis diwethaf wneud cais**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.